# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 29 Hydref 2015.**

**Presennol:-** Cynghorwyr Gwenfair E Davies, Dafydd Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, D Gwyn Jones, Derryck Lewis, S Gareth Owen, William N Owen, Geraint Wigley, Ann Williams, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr Siôn Ifans, John Pughe Jones, Gwen Lloyd.

**41. Cofnodion cyfarfod 24 Medi 2015.**
Eglurodd Cyng Aled O Griffiths mai athro newydd, nid athrawes, oedd wedi cychwyn gwaith yn yr ysgol. Heblaw am hyny, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**42. Materion yn codi o'r cofnodion.**
101.1 "Defibrillator". Eglurodd Gwilym Fychan ei fod ddim wedi cael y cyfle i siarad gyda Paddy Bailey eto.
32.2 Cadarnhaodd Cyng Ann Williams fod y coed wrth y bont yng Nghwmlline wedi cael sylw.
39.1 Prosiect Pont ar Ddyfi. Darllenodd y Clerc llythr gan Hedd Bleddyn Williams yn egluro amheuon am y cynllun presennol. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu llythr i Edwina Hart AS i phwysleisio pwysigrwydd cynnwys ffordd osgoi o fewn y cynllun er mwyn osgoi y tagfeydd presenol yn Nhref Machynlleth.
40.1 Hysbysebu am Cynghorydd newydd. Cytunwyd fe ddylai'r clerc hysbysebu am Cynghorydd newydd ar yr hysbsfwrdd yng Nghanolfan Glantwymyn ac hefyd ar y hysbysfwrdd cyhoeddus ym mhentrf Llanwrin.
40.3 Problem gyda "Japanese Knotweed". Eglurodd Cyng D Gwyn Jones fod y prif broblem i'r gorllewin o'r groesfan yng nghanol y pentref, cyferbyn a Gwesty'r Dyfi.

**43. Anrhegu Stephen Tudor.**
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gwahodd Stephen a'i wraig i pharti gyda bwyd yn dilyn cyfarfod Mis Rhagfyr gyda'r Cynghorwyr presenol a'u phartneriaid. Manylion pellach yw trafod yng nghyfarfod Mis Tachwedd.

**44. Sul y Cofio.**
Eglurodd y Clerc fod trefniadau mewn lle at Sul y Cofio wrth y Cof Golofn yng Nghemaes. Mi fydd y Cadeirydd, Cyng Gwenfair E Davies, yn gosod torch ar rhan y Cyngor Cymuned.

**45. Cynllunio.**
P/2015/0899. Melin Wynt ger Ty Isaf yn Llanbrynmair. Cytunwyd rhoi dim barn.

**46. Eitemau i'w talu.**
46.1 Royal British Legion am torch i Sul y Cofio:- £18-50. Cytunwyd talu.
46.2 Un Llais Cymru am lle ar cwrs hyfforddi i Cyng William N Owen:- £35-00. Cytunwyd talu.

**47. Cais am arian.**
Gohiriwyd dau cais i gyfarfod Mis Rhagfyr.

**48. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
48.1 Cwrs hyfforddi ar datganoli gwasanaethau. Eglurodd Cyng William N Owen fod y cwrs wedi bod yn diddorol. Efallai mi fydd rhaid i'r Cyngor ystyried gweithio gyda cynghorau lleol cyfagos i cadw rhai gwasanaethau yn y dyfodol.
48.2 Ysgol Glantwymyn. Eglurodd Cyng. Aled O Griffiths fod gofidion am y sefyllfa ariannol yn gwynebu'r ysgol yn y dyfodol ond gobeithir cadw pedwar dosbarth.

48.3 Un Llais Cymru. Dosbarthwyd nodiadau gan y Clerc am cyfarfod diweddar cynhaliwyd yng Ngharreghofa.
48.4 Fforwm Cleifion. Dosbarthwyd nodiadau gan y Cadeirydd, Cyng Gwenfair E Davies, am cyfarfod diweddar y Fforwm Cleifion.

**49. Gohebiaeth.**
49.1 Llythr gan Clive Jones, Cyngor Sir Powys ynglyn a gwaith ar yr A470 ger Brynafon, Cemaes.
49.2 Llythr gan Paul Griffiths, Cyngor Sir Powys, ynglyn dyfodol Cynllun Swyddogaethau Cyfredol.
49.3 E-bost gan Melanie Amor, Cyngor Sir Powys, gyda manylion gwasanaeth sbwriel pob tair wythnos. Cytunwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir am eglurhad o'r sefyllfa ynglyn a gwastraff meddygol.
49.4 Llythr gan Cyng Barry Thomas, Cyngor Sir Powys, ynglyn a datgan Gwasanaethau yn y Cymuned.
49.5 Llythr gan Carwyn Jones, Cyngor Sir Powys, gyda manylion a ffurflenni cais Cynllun Swyddogaethau Cyfredol - Mynwentydd.

**50. Unrhyw fater arall.**
50.1 Eglurodd Cyng Paul Hughes fod angen sylw i'r tyfiant coed ger y mynediad i Phoesnant ac hefyd y mynediad i Abertwymyn.
50.2 Eglurodd Cyng. Huw M Williams fod yna problem gyda coeden peryglus ger Esgair For.
50.3 Eglurodd Cyng Huw M Williams fod yna problem gyda un lamp yn Ael-y-bryn, Ceinws, yn diffodd am 6:20yh.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 26 Tachwedd 2015.**